# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Medi 2025

Amser: 13.30 - 15.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15357

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

Nid oedd dim offerynnau i'w hystyried o dan yr eitem hon.

## 3 Offerynnau sy’n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)644 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 - trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)617 - Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (...) a Rhan 5 (...) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyng-weinidogol

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â chanslo cyfarfodydd y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a'r Grŵp Rhyng-Weinidogol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; a llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chyfarfod sydd ar ddod o'r Grŵp Rhyng-Weinidogol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 6.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

### 6.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Cyhoeddi'r Datganiad o Flaenoriaethau Strategol i Great British Energy

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

### 6.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin: Gosod Offerynnau Statudol dwyieithog

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Y Bil Cynllunio (Cymru) a’r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Trafod gohebiaeth ddrafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei ohebiaeth ddrafft at y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Troseddu a Phlismona

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) a chytunodd ar ei adroddiad drafft ar Femorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4.

## 12 Offerynnau statudol a drafodwyd yn flaenorol

Trafododd y Pwyllgor ei ddadansoddiad o'r gwaith parhaus o fonitro offerynnau statudol, a chytunodd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, ac at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 13 SL(6)615 - Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025: Trafod gohebiaeth ddrafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei ohebiaeth ddrafft i'w hanfon at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

## 14 Adroddiad monitro

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad monitro.

## 15 Argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: Cynnig ymchwil

Trafododd y Pwyllgor y cynigion i ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â chyflawni argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a fydd yn llywio gwaith gwaddol y Pwyllgor, a chytunodd arno.

## 16 Gohebiaeth gan Fforwm y Cadeiryddion at Bwyllgorau: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol i'w cynnwys mewn ymateb i adolygiad Fforwm y Cadeiryddion.